## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Moeseg a Safonau**

**DYDDIAD:** **6 Mawrth 2024**

**LLEOLIAD:** **Hybrid**

**TEITL:** **Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Er gwybodaeth**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 25ain Ionawr 2023 o ran cynlluniau hyfforddi'r Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i swyddogion goladu cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned y bu'n rhaid eu cynhyrchu a'u cyhoeddi erbyn 5/11/22 o dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Roedd y Swyddogion Safonau wedi ysgrifennu at y Cynghorau Tref a Chymuned yn gofyn am gopi o'u cynllun hyfforddi'r Cyngor erbyn 2il Ionawr 2023. Roedd 13 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi rhannu eu cynlluniau hyfforddi erbyn y dyddiad cau.

Fe wnaeth y Swyddog Safonau atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned bod yn rhaid iddynt baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi a gofynnodd i'r cynlluniau gael eu hanfon at Gyngor Sir Ceredigion erbyn 24ain Ionawr 2024. Hysbyswyd clercod bod cynnwys y cynllun hyfforddi i'r graddau y mae'n cyfeirio at y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor asesu anghenion hyfforddi Cynghorau Tref/Cymuned.

**Cynlluniau hyfforddi a gafwyd 2022/23:**

- Aber-porth
- Llandysul
- Llanrhystud
- Trefeurig
- Llanbadarn
- Llanfarian
- Aberteifi
- Ceulan-y-maes-mawr
- Genau'r-glyn
- Llannarth
- Llanddewi
- Llandysiliogogo
- Llanfihangel Ystrad
- Llangrannog
- Llangynfelyn
- Llanllwch
- Llanwenog
- Ceinewydd

- Llangwyryfon
- Ysgubor y Coed

**Cynlluniau hyfforddi a gafwyd 2024:**

- Aberystwyth
- Y Borth
- Y Ferwig
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn
- Llandysiliogogo
- Llanfihangel Ystrad
- Llangrannog
- Llangwyryfon
- Llanllwch
- Llanrhystud
- Penbryn
- Trefeurig

Mae 25 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi ymateb i'r cais.  Nid yw 26 o Gynghorau Tref/Cymuned wedi ymateb eto.

Mae nifer o'r cynlluniau yn rhestru'r canlynol ar gyfer pob Cynghorydd, gan ddilyn Templed Un Llais Cymru:

- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2021- 2022
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2022- 2023
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2023-24
- Hyfforddiant wedi'i gyflawni 2024-25

Mae rhai yn cyfeirio at fodiwl 9 ar y Cod Ymddygiad o Raglen Hyfforddi Genedlaethol Cyrsiau Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.  Disgrifir hwn fel '*Modwl rhyngweithiol ac addysgiadol iawn sy'n galluogi cyfranogwyr i ddeall egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan a datblygu gwybodaeth fanylach o'r Cod Ymddygiad a sut mae'n berthnasol i Gynghorwyr lleol*.
*Mae'r modiwl yn ymdrin yn benodol â'r canlynol:*

- *Egwyddorion Nolan*
- *Yr hyn y mae'n rhaid i Gynghorwyr ei wneud a'r hyn na ddylent ei wneud*
- *Buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu*
- *Rhagderfyniad a Rhagdueddiad*
- *Sut y caiff y Cod ei Blismona*

*Atgyfnerthir y dysgu drwy ymarferion ymarferol a DVD o'r Ombwdsmon yn egluro ei rôl.'*

Mae rhai yn rhestru'r cod ymddygiad fel 'Hyfforddiant i'w drefnu yn 2024/25'

Mae un yn rhestru bod 'Pob Cynghorydd yn cael dogfen Cod Ymddygiad ac yn cael sesiwn hyfforddi fer yn dilyn eu hetholiad – bob 4 blynedd'.

Mae lefel y manylder a’r wybodaeth a roddir yn amrywio rhwng Cynghorau Tref/Cymuned.

Rhannwyd y wybodaeth hon gyda Chynghorwyr Sir i'w hysbysu os nad oedd Cyngor y Gymuned yn eu Ward wedi cyflwyno'r cynllun i'r Cyngor; ac i'w hysbysu bod angen i'r cynllun fod ar eu gwefan yn unol â deddfwriaeth.

**ARGYMHELLIAD:**

Nodi cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 14 Chwefror 2024 |
| **Acronymau:** | |